

**E-lawlyfr 1**

**SYNIADAU HANFODOL I DDEALL SYSTEMAU GWLEIDYDDOL**

Uned 2: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

BYW A CHYFRANOGI MEWN DEMOCRATIAETH

**Adnodd 8**

*Mudiadau*

*Cymdeithasol 2:*

*Dulliau Dylanwadu*

**Llawlyfr Gwaith**

## LLAWLYFR GWAITH

### CWESTIWN 1

Eglurwch gan ddefnyddio esiamplau beth yw ystyr y term 'cyfranogiad'.

### CWESTIWN 2

Mae mudiadau cymdeithasol weithiau'n defnyddio dulliau anufudd-dod sifil fel rhan o'u hymgyrchoedd. Amlinellwch pa ddulliau yw'r rhai mwyaf cyffredin, ac o dan ba amgylchiadau y byddai mudiad yn credu y byddai hi'n briodol eu defnyddio?

### CWESTIWN 3

**Tasg:** Dewiswch dri dull all mudiad cymdeithasol eu defnyddio i brotestio. Rhai enghreifftiau yw gwrthdystio, meddiannu, e-ddeiseb, cynnal rali fawr, difrodi eiddo.

Ar gyfer pob un o'r tri dull y dewiswch aseswch:

1: Sut all y dull hwn gynorthwyo mudiad wrth iddo ymgyrchu?

2: Sut all y dull hwn gael effaith negyddol ar ymgyrch mudiad?

3: Pa fath o adnoddau sydd eu hangen ar fudiad er mwyn gallu gweithredu'r dull yn effeithiol?

**CWESTIWN 4**

Beth yw cryfderau a gwendidau rhai o'r dulliau all mudiadau cymdeithasol eu defnyddio?

**CWESTIWN 5**

Eglurwch gan ddefnyddio esiamplau, beth yw ystyr y term 'ffeministiaeth'.

**CWESTIWN 6**

Darllenwch y wybodaeth yn y tabl sy'n cynnig gwybodaeth am y mudiad i fenywod yn y DU.

: Defnyddiwch y wybodaeth ac unrhyw wybodaeth bellach y gallwch ei chasglu am y mudiad i fenywod i gwblhau'r tabl sy'n gofyn am enghreifftiau o nodweddion, mathau a dulliau mudiadau cymdeithasol a drafodir yn Adnoddau 7 ac 8.

Roedd diffyg strwythur ffurfiol gan y mudiad i fenywod yn yr 1960au. Dibynnai ar rwydwaith o grwpiau, rhai wedi hen sefydlu ar lefel y DU, eraill yn fwy lleol, unigolion a chefnogwyr. Roedd amrywiaeth o farn wahanol o fewn y mudiad.	Mae'r mudiad wedi codi ymwybyddiaeth o'r anghydraddoldeb a'r gwahaniaethau sy'n parhau rhwng menywod a dynion ac wedi gwireddu rhai newidiadau mewn agweddau ac ymddygiad.
Yn yr 1960au cymhellwyd nifer fawr o ymgyrchwyr a llwyddwyd i greu llawer o newid cymdeithasol. Erbyn diwedd yr 1970au, roedd rhai yn hawlio bod ffeministiaeth wedi 'marw' a daeth ymgyrchu o blaid menywod yn llai amlwg.	Esiamplau o'r mathau o ddiwygiadau y bu'r mudiad i fenywod yn pwysu amdanynt yw'r Ddeddf Cyflogaeth Cyfartal 1970, Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975, cynnydd yn y cyfleon cyflogaeth i fenywod, cyfranogaeth fwy cyfartal i fenywod yn y gweithle.
Mae mwy o fenywod nag oedd yn y gorffennol yn ymwneud mewn gwleidyddiaeth ac wedi eu hethol yn ddemocrataidd ar bob haen o lywodraeth. Er hyn, mae tan-gynrychiolaeth menywod yn parhau.	Er bod gwreiddiau'r mudiad menywod trawswladol yn y 19G, mae wedi ehangu yn sylweddol yn y degawdau diwethaf.

<p>Mae gwahanol elfennau o ffeministiaeth wedi cyfrannu'n sylweddol at ddeall natur ac achosion yr anghydraddoldeb mae menywod yn eu hwynebu. Gellir dadlau taw 'ffeministiaeth radicalaidd' sydd wedi cyfrannu fwyaf at newid agweddau tuag at fenywod. Fodd bynnag, maent hefyd wedi cyfrannu at y rhaniadau o fewn y mudiad ac mae gwahaniaethau ymysg menywod o ran eu dadansoddiad o'r problemau, strategaethau ac ar faterion penodol.</p>	<p>Bu'r ymgyrchoedd yn yr 19G a'r 20G cynnar yn y DU i sicrhau'r bleidlais i fenywod yn llwyddiannus yn y diwedd. Bu'n rhaid defnyddio anufudd-dod sifil a thor cyfraith i baratoi'r ffordd ar gyfer derbyniad cyhoeddus a llywodraethol i'r egwyddor. Cam allweddol felly oedd deddfau yn 1918 ac 1928 arweiniodd yn y pendraw at roi'r bleidlais i fenywod yn gyfartal gyda dynion.</p>
<p>Roedd mwy o bwyslais yn y mudiad o'r 1960au ymlaen ar sicrhau newid yn agwedd ac ymddygiad dynion a merched nac ar sicrhau newid yn y gyfraith, sefydliadau a pholisi cyhoeddus.</p>	<p>Mae llawer o fudiadau menywod yn gweithredu mewn cydestun cenedlaethol ac yn cyfeirio eu galwadau gwleidyddol at fannau mynediad lleol, rhanbarthol neu gwladwriaethol. Ar yr un pryd, mae ehangu wedi bod o ran y mudiadau menywod sy'n weithgar ar draws y byd, mewn gwleidydd democrataidd ac annemocrataidd.</p>
<p>Er gellir cysylltu llwyddiannau aruthrol gyda'r mudiad i fenywod gan gynnwys y modd mae cydraddoldeb menywod wedi ei dderbyn fel amcan o fewn cymdeithas, nid yw cydraddoldeb rhywedd wedi ei wireddu. Er gwireddu cydraddoldeb ffurfiol cyfreithiol a gwleidyddol, mae diffyg cydraddoldeb yn parhau i fod yn her yn y gweithle, yn y cartref ac o ran gwleidyddiaeth.</p>	<p>Un o'r gwrthwynebwyr mwyaf amlwg i'r mudiad i fenywod yw'r mudiadau 'Pro-Choice' a 'Pro-Life' sy'n gallu arwain at wrthdaro'n ffyrnig dros hawliau cenhedlu. Mae'r gwahaniaeth barn dwfn yn y Deyrnas Unedig ac yn arbennig yn yr Unol Daleithiau yn cael ei amlygu gan orymdeithiau o blaid yr hawl i erthyliad a chan brotestiadau y tu allan i glinigau sy'n darparu'r gwasanaeth.</p>

GWYBODAETH O ENGHRAIFFT Y MUDIAD I FENYWOD	
<b>Diffinio mudiad cymdeithasol</b>	
<b>Nod mudiad cymdeithasol</b>	
<b>Trefniadaeth mudiad cymdeithasol</b>	
<b>Aelodaeth</b>	
<b>Dulliau</b>	
<b>Targedau</b>	
<b>Asesu'r mudiad: Pa mor effeithiol? Llwyddiannau/ Methiannau?</b>	

**CWESTIWN 7****Mudiadau Cymdeithasol a'r Cyfryngau**

**Tasg:** Darllenwch y wybodaeth yn y tabl isod sy'n cynnig safbwyntiau ynghylch effaith y cyfryngau ar weithgarwch mudiadau cymdeithasol.

- 1: Rhannwch nhw yn safbwyntiau sydd **a:** yn dangos pwysigrwydd y cyfryngau i fudiadau cymdeithasol a **b:** yn dangos yr heriau mae mudiadau cymdeithasol yn eu hwynebu wrth ymwneud gyda'r cyfryngau.
- 2: Rhowch drefn ar y dadleuon hyn a chynigiwch amlinelliad o sut fydddech chi'n strwythuro'r dadleuon i'w defnyddio i ateb y cwestiwn: 'Gwerthuswch gyfraniad y cyfryngau i wireddu amcanion mudiadau cymdeithasol'.
- 3: Ymchwil pellach:
  - Chwiliwch am esiamplau o brofiadau mudiadau cymdeithasol i enghreifftio a chyfiawnhau'r pwyntiau.
  - Oes dadleuon eraill rydych chi'n credu sy'n bwysig i'w cynnwys o ran y berthynas rhwng y cyfryngau a mudiadau cymdeithasol?

Mae'r cyfryngau yn gallu cyrraedd nifer llawer uwch o bobl na mudiad ei hunan drwy ei rwydweithiau neu ei gyhoeddiadau ei hun.	Mae mudiadau cymdeithasol yn wynebu heriau gan eu bod yn llai pwerus na chorfforaethau'r cyfryngau.
Ystyrir ei bod hi'n haws i fudiadau mwy proffesiynol ddylanwadu ar y cyfryngau.	Mae'r cyfryngau yn fodd o rannu neges y mudiad, ennyn cefnogaeth, dylanwadu ar benderfyniadau'r wladwriaeth ac weithiau danseilio eu gwrthwynebwyr.
Gall straeon am fudiadau gael eu hystumio gan y modd mae'r cyfryngau yn fframio'r drafodaeth.	Honnir bod anghydraddoldeb yn y berthynas rhwng mudiadau cymdeithasol a'r cyfryngau ac mae heriau i fudiadau o ran dylanwadu ar y cyfryngau.
Mae mudiadau yn defnyddio pob math o dactegau dramatig i gael sylw ac i annog y cyfryngau print a darlledu confensiynol i adrodd ar eu gweithgareddau.	Dadl arall yw bod mudiadau yn aml yn cael trafferth cael sylw i'w hachos.
Gellir ystyried y modd mae mudiad cymdeithasol yn dylanwadu ar drafodaeth yn y cyfryngau fel arwydd o lwyddiant mudiad. A yw wedi llwyddo i greu newid diwylliannol drwy newid agweddau (neu ddisgwrs) cyhoeddus, yn arbennig y modd mae'r pwnc yn cael ei drafod yn y cyfryngau?	Mae technoleg gwybodaeth a'r cyfryngau cymdeithasol wedi gwneud mudiadau cymdeithasol yn llai dibynnol ar y cyfryngau i ledaenu eu neges.

**CWESTIWN 8**

'Mae'r dyddiau pan fo cyfryngau traddodiadol yn bwysig i fudiadau cymdeithasol wedi dod i ben.' Trafodwch.

**CWESTIWN 9****Datblygiad y Mudiad i Fenywod**

Press discourses of women peace protesters at Greenham Common in the 1980's ... show how their visibly public and apparently unruly actions and 'disrupted femininity' and led to portrayals of them as wild and deviant... By contrast, Seal shows how the media coverage on news websites about Pussy Riot has, on balance, been positive and supportive.

She says this largely has to do with the post-Cold War context within which Pussy Riot's dissent has taken place. Hence, their feminism has gained acceptance as it chimes with a post-Cold narrative about the progressive nature of Western values such as freedom of speech and freedom of expression, as well as a human rights discourse, which are counterposed to the old-fashioned repression and authoritarianism of Russia' (Martin, 2015: 117)

Darn o: Martin, G. (2015). 'Understanding Social Movements' (Llundain: Routledge).

**Tasg:** Darllenwch y darn hwn ac yna atebwch y cwestiynau isod.

1: Esboniwch pam y byddai rhai yn ystyried bod protestiadau a gweithredoedd merched Comin Greenham yn tarfu ar eu benyweidd-dra (*disrupting femininity*)?

2: Defnyddiwch y wybodaeth yn y darn hwn ac ymchwiliwch yn bellach i ddadansoddi'r rhesymau i egluro pam roedd y derbyniad a roddwyd i brotestiadau merched Pussy Riot yn wahanol i'r ymateb i brotestwyr Comin Greenham. Beth gredwch chi mae hyn yn ei ddweud wrthym am y mudiad i fenywod ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain?

3: Beth mae'r enghraifft hon yn ei ddangos i ni am ddylanwad y cyfryngau ar sut mae mudiadau cymdeithasol yn cael eu portreadu, ac yn benodol y mudiad i fenywod?

### **CWESTIWN 10**

Gan ddefnyddio enghreifftiau, aseswch beth yw effaith mudiadau cymdeithasol.

### **CWESTIWN 11**

Pa mor bwysig yw mudiadau cymdeithasol mewn democratiaethau cyfoes?